OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 3366

# Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2005

## RHAN VI

GWRANDAWIAD GAN Y PANEL ANNIBYNNOL

**Adroddiad y panel**

**26.**—(1) Rhaid i gadeirydd y panel baratoi adroddiad ysgrifenedig—

(a) sy'n crynhoi canfyddiadau o ffeithiau a wneir gan y panel ac sy'n berthnasol i'r gwyn;

(b) sy'n crynhoi casgliadau'r panel;

(c) sy'n argymell pa gam, os o gwbl, y dylid ei gymryd i benderfynu ar y gwyn;

(ch) sy'n argymell pa gam arall, os o gwbl, y dylid ei gymryd fel canlyniad i'r gwyn; a

(d) sy'n nodi'r rhesymau dros ganfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y panel.

(2) Caiff yr adroddiad gynnwys awgrymiadau a fyddai ym marn y panel yn gwella gwasanaethau'r awdurdod lleol neu a fyddai'n effeithiol fel arall at ddibenion penderfynu ar y gwyn.

(3) Rhaid danfon yr adroddiad i'r Cynulliad o fewn 5 niwrnod gwaith i'r dyddiad y daw'r gwrandawiad gan y panel i ben.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5) rhaid i'r Cynulliad anfon copïau o adroddiad y panel—

(a) at yr achwynydd;

(b) at unrhyw berson annibynnol a benodir o dan reoliad 17 o Reoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Plant) (Cymru) 2005;

(c) at unrhyw berson y gwnaed cwyn ar ei ran gan gynrychiolydd;

(ch) at aelodau'r panel; a

(d) at Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yr awdurdod y ceir cwyn yn ei erbyn.

(5) Caiff cadeirydd y panel beidio â datgelu unrhyw ran o adroddiad y panel pan fo hynny'n angenrheidiol, ym marn y cadeirydd, er mwyn diogelu cyfrinachedd unrhyw drydydd parti.

(6) Os nad yw cadeirydd y panel yn gallu sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'r Cynulliad o fewn yr amser a nodir ym mharagraff (3) rhaid i'r Cynulliad ysgrifennu at y personau y mae ganddynt hawl i gael copi o'r adroddiad yn egluro'r rheswm dros yr oedi ac yn dweud pryd bydd yr adroddiad ar gael.